Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Cymunedol Integredig - Tîm Adnoddau Cymunedol |
| **SWYDD:** | Technegydd Adolygu Teleofal Bridgelink |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR05 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Datblygwr Teleofal Bridgelink |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Sicrhau bod unigolion sy'n derbyn Gwasanaeth Teleofal Bridgelink yn defnyddio'r offer TEC/teleofal mwyaf priodol ac effeithiol i ddiwallu eu hanghenion newidiol. Cyflawnir hyn drwy weithio gyda rhagnodwyr, rhanddeiliaid mewnol a'r gwasanaethau allanol hynny a gomisiynir gan y cyngor i ddarparu agweddau ar y gwasanaeth TEC/Teleofal.

Byddwch yn datblygu ac yn cynnal gwybodaeth gynhwysfawr am offer Teleofal a Gofal a Alluogir gan Dechnoleg (TEC), ei ddefnydd, cymhwysiad, a'i effeithiolrwydd. Byddwch yn cynghori staff proffesiynol ar ei ddefnydd ac adolygu cleientiaid presennol yn y gwasanaeth Teleofal i sicrhau bod eu hoffer yn briodol ac yn cefnogi byw'n annibynnol - gan ymestyn yr amser y gall pobl fyw gartref.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Adolygu a chymryd camau priodol i ddatrys unrhyw bryderon ynghylch offer a godir gan ragnodwyr neu gleientiaid dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Gall y camau sy'n ofynnol gynnwys ymweliad cartref neu wiriad lles.
- Cynnal rhaglen o adolygiadau rheolaidd o offer TEC/Teleofal sy'n cael ei ddefnyddio, gan gymryd camau priodol i ddatrys unrhyw newidiadau offer sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'w hanghenion newidiol a rhoi adborth fel y bo'n briodol i'r angen am ymyriad ehangach i gynorthwyo'r unigolyn ac unrhyw newidiadau i'w sefyllfa/amgylchiadau.
- Cynorthwyo'r Datblygwr Teleofal Bridgelink mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau gan gynnig y cyfle i ddangos agweddau ar ofal a alluogir gan dechnoleg, gan gynyddu'r ddealltwriaeth o fanteision posibl Teleofal a TEC wrth gynorthwyo byw'n annibynnol.
- Gweithio gyda rhagnodwyr i nodi a chyfateb darnau priodol o offer i fodloni gofynion cleient. Cynnal asesiad o anghenion TEC/Teleofal unigolyn yn ôl yr angen i sicrhau bod yr offer cywir yn cael ei osod yn ei gartref.
- Darparu cyngor a chymorth ar yr amrywiaeth o offer technoleg â chymorth i unigolion a rhanddeiliaid. Sicrhau bod unigolion yn gwybod sut i ddefnyddio a phrofi'r holl offer a ddarperir.
- Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o Just Checking fel rhan o asesiad unigolyn a gosod/dadosod yn ôl yr angen.

- Cefnogi prosiectau datblygu yn y maes gwasanaeth, fel y'u dirprwyir gan y Datblygwr TEC.
- Gwybodaeth gyfredol a gwybodaeth dda am dechnolegau digidol neu barodrwydd i ddysgu. Sgiliau cyfathrebu sydd wedi'u datblygu'n dda
- Cynnal y gronfa ddata cleientiaid ar ddarparu gwasanaethu, defnyddio gwasanaethau a darparu data a dadansoddi adolygu i gynorthwyo penderfyniadau gan y gwasanaeth.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Technegydd Adolygu Teleofal Bridgelink

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Safon dda o addysg sy'n cyfateb i FfCCh Lefel 2 neu'r gallu i ddangos cymhwysedd drwy brofiad.<br>• Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'r rôl. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gwybodaeth am y mathau o offer Teleofal/TEC sydd ar gael a'u cyd-destun defnydd.<br>• Profiad o weithio mewn amgylchedd gofal cymdeithasol.<br>• Profiad o weithio mewn maes gwasanaeth amlddisgyblaethol.<br>• Yn hyderus wrth ddefnyddio TG (er enghraifft: e-bost a phrosesu geiriau). | Ydy<br><br><br><br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu a pharodrwydd i gyfathrebu â phobl.<br>• Gallu asesu a dadansoddi gwybodaeth i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.<br>• Sgiliau llafar/ysgrifenedig a chyd-drafod da a'r gallu i gofnodi gwaith yn glir.<br>• Gallu cyfathrebu materion allweddol yn glir ac yn effeithiol; gallu addasu dull cyfathrebu yn ôl yr angen.<br>• Gallu dangos sgiliau trefnu da a gweithio fel aelod atebol o'r tîm.<br>• Gallu gweithio'n effeithiol gyda thimau, asiantaethau a mudiadau gwirfoddol eraill mewn dull amlddisgyblaethol.<br>• Sgiliau TG da. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br><br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau** | • Rhoi anghenion unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth Teleofal | Ydy | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Personol Parhad** | (cwsmeriaid mewnol neu allanol) wrth wraidd penderfyniadau.<br>• Dangos agwedd gadarnhaol tuag at helpu pobl a bob amser yn barod i fynd yr ail filltir.<br>• Sicrhau bod anghenion atgyfeirwyr ac unigolion yn cael eu diwallu drwy ymateb iddynt yn effeithlon ac yn effeithiol.<br>• Gallu cynllunio a blaenoriaethu tasgau'n effeithlon ac yn effeithiol i ddarparu'r gwerth a'r gwasanaeth gorau posibl.<br>• Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol.<br>• Trwydded yrru ddilys gyfredol a char neu fynediad i drafnidiaeth briodol.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | <br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | |